**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (50)**

**Dydd Iau, 14 Chwefror 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 4**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar "Y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth"**

**Eitem 5**
**Dadl ar Arolwg y Cynulliad o'i Weithdrefnau** (90 munud)

**NDM964** - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu Adroddiad Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad.

2. Yn cymeradwyo argymhellion y Grwp.

3. Yn gofyn i'r partïon a restrir ym Mhennod Deg o'r adroddiad fynd ati i weithredu argymhellion y Grwp Adolygu.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad ar y Fewnrwyd yn y cyfeiriad canlynol: http://assembly/committees/Review_of_Procedure/Reports/Final%20English

%20Version.html

http://cynulliad/wcommittees/Review_of_Procedure/Adroddiadau.html

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)+(3)+(5)+(11)
(2)+(4)+(6)+(7)+(8)+(9)
(10)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn croesawu'r ffaith bod y Grwp wedi mabwysiadu'r egwyddor bod y rhaniad cliriaf posibl a ganiateir gan y ddeddfwriaeth bresennol rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad.'

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 1, ychwanegu:

Ond yn beirniadu'r Prif Weinidog am achub y blaen ar adroddiad y Grwp Adolygu trwy gyhoeddi newid enw 'Cabinet y Cynulliad' i 'Lywodraeth Cynulliad Cymru'.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu 'yn amodol ar y gwelliannau canlynol i'r Adroddiad:'

I. Pennod 2.3 - ychwaneger argymhelliad newydd 'Bod y Llywodraeth yn mabwysiadu'r teitl 'Llywodraeth Cymru' i ddisgrifio'i hun yn hytrach na 'Llywodraeth Cynulliad Cymru'

II. Pennod 3.5 - ychwaneger ar ddiwedd yr ail argymhelliad ', a chyn belled â bod unrhyw estyniad ar ôl 6.00pm i sesiynau'r cyfarfodydd llawn yn cael eu defnyddio yn unig i hwyluso materion brys y Llywodraeth.
III. Pennod 4.8 - Ar ddiwedd yr argymhelliad ychwaneger 'a bod uned deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei chreu o fewn Swyddfa'r Llywydd i'w helpu â'r dasg honno'
IV. Pennod 6.14 - Ychwaneger ar ddiwedd yr argymhelliad ' Dylid cynnal dadl yn amser y Llywodraeth i drafod ymateb Gweinidogion i adroddiadau o'r fath.'

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 'fel y'u diwygiwyd'.

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:

fodd bynnag, geilw am i ffiniau'r pwyllgorau rhanbarth adlewyrchu ffiniau rhanbarthau etholiadol y Cynulliad.

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:

fodd bynnag, geilw ar Weinidogion y Cynulliad i osod cynigion i'w trafod fel ymateb i adroddiadau'r pwyllgorau pwnc.

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:

fodd bynnag, geilw am adfer pleidlais ar ddiwedd dadleuon byr.

**9. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:

fodd bynnag, gofynnir bod copi caled yn ogystal â fformat electronig o gofnod y Cynulliad yn cael ei ddarparu.

**10. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Ychwanegu fel pwynt 3 newydd a'u hail-rifo yn unol â hynny:

"Yn annog cyhoeddi Mesurau ar ffurf drafft, ond gan gydnabod bod yn rhaid i’r broses graffu, yn ymarferol, roi blaenoriaeth i fesurau a gyflwynir gan y Cynulliad a’r rheini sy’n cael effaith arwyddocaol ar Gymru".

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt 4 newydd:

' Yn nodi y cafodd y Grwp Adolygu ei gyfyngu gan ei gylch gwaith i weithio o fewn fframwaith Deddf Llywodraeth Cymru ac yn derbyn na cheid gwelliannau sylweddol ac ystyrlon i effeithiolrwydd y Cynulliad heb bwerau deddfu sylfaenol.'

**Eitem 6**
**Dadl Fer**
**NDM963 Peter Black (Gorllewin De Cymru): Mastiau Ffonau Symudol - Diogel neu Beidio?**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.30pm**

**************

**Bydd y Cynulliad yn torri o 18 - 22 Chwefror 2002**

*****************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 26 Chwefror 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**